Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Gwelliannau Cyfnod 2

Tachwedd 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7536**
E-bost: **Francesca.Howorth@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Gwelliannau Cyfnod 2

Tachwedd 2023

**Awduron:**
Francesca Howorth a Chloe Corbyn

## Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi Cyfnod 2 o daith Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) drwy'r Senedd.

Yn ystod **Cyfnod 2** o'r gwaith craffu ar Fil, mae Aelodau o'r Senedd yn cyflwyno gwelliannau y mae pwyllgor yn eu trafod ac yn pleidleisio arnynt. Dim ond Aelodau'r pwyllgor cyfrifol a gaiff bleidleisio ar y gwelliannau. Ar ôl pleidleisio ar y gwelliant olaf, bydd y Bil yn symud i Gyfnod 3, lle caiff rhagor o welliannau eu cyflwyno. Mae'r Senedd yn trafod ac yn pleidleisio ar y gwelliannau dethol yn y Cyfarfod Llawn.

Dechreuodd **ystyriaeth Cyfnod 2 o Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)** (y Bil), gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor), ar 13 Medi 2023 a daeth i ben ar 11 Hydref pan gyfarfu'r Pwyllgor i ystyried gwelliannau Cyfnod 2. Cafodd 87 o welliannau eu cyflwyno, a derbyniwyd 22 ohonynt.

Mae rhagor o fanylion am ddarpariaethau'r Bil a'r gwaith craffu arno yn ystod Cyfnod 1 ar gael ar **ein tudalen adnoddau** ar gyfer y Bil. Mae'r dogfennau allweddol eraill yn cynnwys:

- **Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)** fel y'i cyflwynwyd a'r **Memorandwm Esboniadol**;
- **Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) fel y'i diwygiwyd** yng Nghyfnod 2;
- **Adroddiad Cyfnod 1** Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac **ymateb Llywodraeth Cymru**;
- **Rhestr o welliannau Cyfnod 2 wedi'u grwpio**; a
- **Rhestr o welliannau Cyfnod 2 wedi'u didoli**.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Gwelliannau Cyfnod 2 ........ 2**

Grŵp 1: Targedau ansawdd aer - gofyniad i osod targedau ansawdd aer ........ 2

Grŵp 2: Targedau ansawdd aer: Rhoi sylw i ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ........ 3

Grŵp 3: Targedau ansawdd aer: Cynnal safonau ansawdd aer ........ 3

Grŵp 4: Targedau ansawdd aer: adrodd, adolygu a monitro hynt ........ 4

Grŵp 5: Teithio llesol ........ 5

Grŵp 6: Segura llonydd ........ 5

Grŵp 7: Strategaeth ansawdd aer genedlaethol: gofynion pellach ........ 6

Grŵp 8: Rheoli ansawdd aer gan awdurdodau lleol: adolygiadau a chynlluniau gweithredu ........ 7

Grŵp 9: Ardaloedd rheoli mwg ........ 7

Grŵp 10: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ........ 9

Grŵp 11: Swyddfa Diogelu Ansawdd Aer ........ 10

Grŵp 12: Seinweddau ........ 10

Grŵp 13: Rheoliadau ........ 11

**3. Y camau nesaf ........ 11**

# 1. Cyflwyniad

**Cyflwynwyd y Bil** i'r Senedd ar 20 Mawrth 2023 gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog). Yn ystod y ddadl Cyfnod 1, cadarnhawyd bod Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog), wedi **cymryd cyfrifoldeb am y Bil**.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Bil yn rhan o becyn o fesurau a nodir yn ei **Chynllun Aer Glân** i leihau llygredd aer.

Pe bai'n cael ei ddeddfu, byddai'r Bil yn creu fframwaith gosod targedau ansawdd aer i alluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau penodol i Gymru ar gyfer llygryddion aer;

Mae hefyd:

- yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar strategaeth ansawdd aer genedlaethol a'i chyhoeddi;
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer;
- yn anelu at gryfhau'r **drefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol** drwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gamau gweithredu/safonau yng Nghynllun Gweithredu Ansawdd Aer awdurdod lleol gynnwys dyddiad ar gyfer cydymffurfio y cytunir arno â Gweinidogion Cymru;
- yn anelu at wella camau gorfodi o ran allyriadau mewn **Ardaloedd Rheoli Mwg**, gan newid o sancsiynau troseddol i sancsiynau sifil;
- yn ehangu'r amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd;
- yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r ystod ariannol ar gyfer dyroddi taliadau cosb am droseddau lle mae cerbydau'n segura; ac
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol.

# 2. Gwelliannau Cyfnod 2

Trafododd y Pwyllgor y 87 o welliannau a gyflwynwyd i'r Bil **ar 11 Hydref 2023**. Cytunwyd ar ddau ar hugain – roedd 17 ohonynt yn welliannau gan y llywodraeth.

Cafodd y gwelliannau eu **grwpio** er mwyn hwyluso'r ddadl - roedd 13 grŵp. Mae'r **rhestr o welliannau wedi'u didoli** yn nodi'r gwelliannau yn y drefn y cawsant eu gwaredu.

Cyflwynwyd deunaw gwelliant gan y Dirprwy Weinidog, 44 gan Janet Finch-Saunders AS, 19 gan Delyth Jewell AS, tri gan Jenny Rathbone AS a thri gan Huw Irranca-Davies AS.

Mae manylion y gwelliannau o bob grŵp, ynghyd â'u tynged, wedi'u nodi isod.

## Grŵp 1: Targedau ansawdd aer - gofyniad i osod targedau ansawdd aer

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 21 o welliannau, a chafodd un ohonynt ei dderbyn.

Mae gwelliant 1 gan y Llywodraeth, a dderbyniwyd, yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod "aer amgylchynol" yn cael ei ddiffinio at ddibenion pob targed ansawdd aer $PM_{2.5}$. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog fod y gwelliant hwn wedi'i gyflwyno mewn ymateb i argymhellion 18 a 19 yn **adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil**. Dywedodd fod y gwelliant hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i gael diffiniadau gwahanol o aer amgylchynol ar gyfer targedau gwahanol.

Byddai gwelliant 19, a oedd yn anlwyddiannus ac a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, wedi diwygio'r Bil fel bod 'rhaid' i Weinidogion Cymru osod targedau hirdymor ar gyfer ansawdd aer ac nid fel y 'caiff' y Gweinidogion wneud hynny. Byddai gwelliant 20, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod o leiaf un targed mewn cysylltiad ag un neu ragor o'r llygryddion a restrir mewn adran newydd ($PM_{10}$, osôn ar lefel y ddaear, nitrogen deuocsid, carbon monocsid a/neu sylffwr deuocsid). Byddai gwelliant 22 wedi cael yr effaith o gynnwys cyfeiriad penodol at lygryddion trawsffiniol yn y Bil. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y caiff y Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) ei ddiweddaru i sicrhau y bydd yr wybodaeth, y cyngor a'r dystiolaeth wyddonol yn cynnwys gwybodaeth am lygryddion trawsffiniol. Byddai gwelliant 28 wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau o fewn dwy flynedd i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, yn hytrach na'r cyfnod o dair blynedd yn y Bil.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog na fyddai modd cyflawni hyn ar gyfer $PM_{2.5}$ a llygryddion eraill.

Byddai gwelliant 68, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a'r cyhoedd wrth osod targedau. Byddai gwelliannau 66 a 67, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, wedi'i gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod targedau, a hefyd wedi dileu'r cyfeiriad bod y rhain yn dargedau hirdymor - gan roi'r opsiwn o osod targedau byrdymor neu hirdymor.

Roedd gweddill y gwelliannau yn y grŵp hwn yn dechnegol.

## Grŵp 2: Targedau ansawdd aer: Rhoi sylw i ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri gwelliant, a derbyniwyd dau ohonynt (a gyflwynwyd gan Jenny Rathbone AS). Mae gwelliannau 85 a 86 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r **canllawiau diweddaraf ar ansawdd aer byd-eang gan Sefydliad Iechyd y Byd** wrth osod ac adolygu targedau ansawdd aer. Mae hyn yn unol ag argymhelliad 9 yn **adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** a oedd yn gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i roi sylw i ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer wrth osod targedau. Mae'r ddau welliant yn cymhwyso'r sylw hwn i osod ac adolygu targedau.

Roedd gwelliant 69, a oedd yn aflwyddiannus ac a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, yn galw ar Weinidogion Cymru i roi sylw i "ganllawiau a thargedau perthnasol a gydnabyddir yn rhyngwladol", gan gynnwys targedau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

## Grŵp 3: Targedau ansawdd aer: Cynnal safonau ansawdd aer

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar gwelliant, tri a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, ac un (3A) gan Jenny Rathbone AS. Derbyniwyd pob gwelliant yn y grŵp hwn.

Mae gwelliant 3 gan y Llywodraeth yn ychwanegu adran newydd at y Bil ar gynnal safonau ansawdd aer. Yr effaith yw, pan fodlonwyd dyddiad penodedig ar gyfer targed, neu pan gyflawnwyd y safon ar gyfer y targed, fod dyletswydd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i gynnal y safon honno. Bydd gofynion adrodd hefyd yn cael eu rhoi ar waith o ran cyflawni'r ddyletswydd honno. Dywedodd y Dirprwy

Weinidog y bydd angen llunio adroddiadau yn flynyddol. Caiff Gweinidogion Cymru roi safon is yn lle'r safon bresennol, neu ei dirymu, dim ond os ydynt wedi'u bodloni:

- na fyddai unrhyw fudd sylweddol yn gysylltiedig â chyflawni'r safon o gymharu â pheidio â'i chyflawni, neu gyflawni safon is; neu
- yn sgil newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y safon benodedig neu ei gostwng ddiwethaf y byddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyflawni'r safon yn anghymesur â'r buddion.

Cyn gwneud hynny byddai angen i Weinidogion Cymru geisio cyngor arbenigol annibynnol, rhoi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer, a chyhoeddi datganiad sy'n ymwneud â'r ddau bwynt a'i osod gerbron y Senedd.

Mae gwelliant 3A, a gyflwynwyd gan Jenny Rathbone AS, yn ychwanegu at yr uchod, gan alw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i ganllawiau diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Roedd gwelliannau 2 a 12 yn welliannau technegol.

## Grŵp 4: Targedau ansawdd aer: adrodd, adolygu a monitro hynt

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys wyth gwelliant, a derbyniwyd dau ohonynt a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Mae gwelliant 4 gan y Llywodraeth yn mewnosod adran newydd, sy'n ymwneud ag adrodd ar dargedau a osodir yn adran 1. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd a chyhoeddi adroddiad ar yr ystyriaeth a roddir yn ystod y cyfnod hwnnw i osod targedau hirdymor o dan adran 1. Yn benodol, mae hyn yn gymwys i dargedau ar gyfer amonia, $PM_{10}$, osôn ar y lefel ddaear, nitrogen deuocsid, carbon monocsid a sylffwr deuocsid.

Gan gydnabod y drafodaeth ynghylch llygryddion ychwanegol yng Nghyfnod 1, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y gwelliant hwn wedi'i ddrafftio yn sgil argymhellion 5 a 6 yn **adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**, ac argymhellion 14 a 15 yn **adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud i gwmpasu a datblygu'r achosion ar gyfer newid ac opsiynau targed posibl, ac mai'r disgwyl yw cwblhau'r gwaith hwnnw erbyn gwanwyn 2025. Dywedodd na ellir achub y blaen o ran canlyniad y gwaith hwn.

Byddai gwelliant 31 (a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS) wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar pam nad oedd targed wedi'i gyflawni, o fewn chwe mis ar ôl i'r datganiad gael ei osod (yn hytrach na'r 12 mis a

gynigiwyd yn y Bil). Byddai gwelliant 33, a oedd yn aflwyddiannus ac a gyflwynwyd gan yr un Aelod, wedi'i gwneud yn ofynnol, pan fydd adolygiad targed hirdymor yn cael ei gynnal, i'r adolygiad hwnnw gynnwys o leiaf un targed interim i'w gyflawni cyn i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau. Galwodd gwelliant 34 am i'r adolygiad hwnnw gynnwys y canlynol, ond iddo beidio â bod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r targed;
- camau a gymerwyd mewn perthynas â chyflawni'r targed;
- y costau y mae angen eu talu mewn perthynas â'r targed; ac
- asesiad o'r effaith economaidd ar yr economi leol a chenedlaethol.

Mewn ymateb i'r gwelliant hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn deall mai'r bwriad yw sicrhau bod gwybodaeth am gynnydd tuag at dargedau ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, dywedodd fod hyn yn cael ei gyflawni gan y **Cynllun Aer Glân**, ond cytunodd i drafod y gwelliant ymhellach gyda'r Aelod.

Galwodd gwelliant 70, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, am newid y cyfnod adolygu ar gyfer targedau o bum mlynedd i 12 mis. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y dylid canolbwyntio'n gynnar ar ddatblygu a gweithredu mesurau i gyflawni'r targedau, yn hytrach nag ar eu hadolygu a'u newid yn rhy fuan.

## Grŵp 5: Teithio llesol

Saith gwelliant oedd yn y grŵp hwn, gan gynnwys un gwelliant gan y Llywodraeth. Ni dderbyniwyd unrhyw un ohonynt. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Pwyllgor i dynnu'r gwelliannau yn ôl gyda'r bwriad o barhau i drafod a chyflwyno rhywbeth hyd yn oed yn well yng Nghyfnod 3.

Roedd y gwelliannau'n canolbwyntio ar ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol i leihau llygredd aer neu gyfyngu arno. Wrth siarad am ei welliannau (63, 64 a 65), awgrymodd Huw Irranca-Davies AS fod y ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol o fewn **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn rhy gul ac nad oedd wedi bod yn effeithiol oherwydd hynny. Byddai ei welliannau wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau, y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw iddynt, ynghylch eu dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol o fewn 12 mis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

## Grŵp 6: Segura llonydd

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwe gwelliant, tri a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS a thri gan Janet Finch-Saunders AS. Ni dderbyniwyd unrhyw un ohonynt.

Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi ystod ariannol y caniateir i awdurdodau lleol ddyroddi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau segura o'i mewn. Byddai gwelliant 50, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS, yn dileu'r darpariaethau hyn. Byddai gwelliant 51, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, wedi mewnosod adran newydd i gyflwyno "parthau dynodedig" o fewn 50 metr i ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal lle y byddai modd cosbi troseddau segura drwy gosb benodedig o £60, ond £20 fyddai'r gosb am droseddau mewn mannau eraill.

Byddai gwelliannau a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut y mae lleihau segura yn gallu lleihau llygredd aer. Byddai'r gwelliannau wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar ffactorau y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth gymryd camau gorfodi. **Amlinellodd y Dirprwy Weinidog** yr hoffai, er nad oedd yn cefnogi'r gwelliannau hyn fel y'u drafftiwyd, gydweithio, ar gyfer Cyfnod 3, i ymchwilio i gyfleoedd a allai fod ar gael i sicrhau datrysiad.

## Grŵp 7: Strategaeth ansawdd aer genedlaethol: gofynion pellach

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pum gwelliant – derbyniwyd un ohonynt, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Mae gwelliant 5 yn ychwanegu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at y rhestr o gyrff y mae rhaid ymgynghori â hwy pan fydd y strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn cael ei hadolygu. Rhoddodd y gwelliant hwn effaith i argymhelliad 18 yn **adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor**.

Galwodd gwelliant aflwyddiannus 42 (gan Janet Finch-Saunders AS) a gwelliant aflwyddiannus 74 (gan Delyth Jewell AS) am estyn y rhestr ymhellach i gynnwys: y Panel Cynghori ar Aer Glân a Trafnidiaeth Cymru yn y drefn honno. Cyfiawnhad y Dirprwy Weinidog dros beidio â chynnwys y Panel Cynghori ar Aer Glân oedd nad yw'n gorff statudol. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i drafod y cynnig i ychwanegu Trafnidiaeth Cymru at y rhestr.

Galwodd gwelliant aflwyddiannus 75, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, am ychwanegu adran newydd, gan gynnwys dyletswydd i adrodd ar y strategaeth bob blwyddyn ariannol. Er na dderbyniwyd y gwelliant hwn, amlinellodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad diweddaru ar gynnydd tuag at gamau gweithredu yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Ymrwymodd i ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu hyn.

## Grŵp 8: Rheoli ansawdd aer gan awdurdodau lleol: adolygiadau a chynlluniau gweithredu

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pum gwelliant, ac ni dderbyniwyd unrhyw un ohonynt.

Byddai gwelliannau 44 i 47, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS wedi galluogi awdurdodau lleol i geisio cyngor gan Weinidogion Cymru, cyn cynnal adolygiad Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, ar amcangyfrif costau gweithredu canfyddiadau'r adolygiad. Mewn perthynas â chynlluniau gweithredu ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, galwodd gwelliant 45 am ddatblygu'r rhain o fewn 12 mis ar ôl dynodi'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Galwodd gwelliant 46 am i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae'r awdurdod lleol wedi'u cymryd i ymgysylltu â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol ar gyfer cyrraedd safonau ac amcanion ansawdd aer yn yr ardal ddynodedig. Roedd gwelliant 47 yn galw am ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol a yw'r cynllun gweithredu wedi'i gymeradwyo ai peidio o fewn tri mis ar ôl i'r cynllun ddod i law. Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i drafod hyn ymhellach yn y canllawiau.

Byddai gwelliant 76, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, wedi'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth gynnal adolygiad, lunio a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer sy'n cynnwys polisïau ar gyfer asesu a rheoli ansawdd aer, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella ansawdd aer yn ei ardal. Roedd y Pwyllgor wedi **gwneud dau argymhelliad** ar y mater hwn. Y cyntaf (argymhelliad 20) oedd cyflwyno gwelliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth ansawdd aer. Yr ail (argymhelliad 21) oedd y dylai Gweinidogion Cymru, yn absenoldeb gwelliant, gryfhau canllawiau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol i osod disgwyliad cryf i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ansawdd aer. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i'r gwelliant drwy gynnig gwella'r mecanwaith presennol ar gyfer adrodd am gynnydd blynyddol presennol ar gyfer awdurdodau lleol, yn hytrach nag ychwanegu dyletswydd newydd i gyhoeddi strategaethau.

## Grŵp 9: Ardaloedd rheoli mwg

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 13 o welliannau. Derbyniwyd wyth o'r rhain, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth.

Mae gwelliant 9 gan y Llywodraeth, ynghyd â gwelliannau canlyniadol 6, 7, 8 a 15, yn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i esemptio lleoedd tân penodol rhag cwmpas y sancsiynau sifil newydd ar gyfer gollwng mwg mewn ardal rheoli mwg. Mae adran newydd (19G) yn cadw pŵer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rhestrau o leoedd

tân esempt at ddibenion y troseddau a nodir yn adran 19F. Mae darpariaethau newydd yn adran 19G yn cael eu rhoi yn lle'r darpariaethau presennol yn adran 19F sy'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rhestrau o danwydd awdurdodedig (a hepgorir gan welliant 8).

Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd y newidiadau hyn yn helpu awdurdodau lleol i weithredu a gorfodi'r drefn sancsiynau sifil newydd. Nid oes pŵer mynediad ar hyn o bryd, felly ni all awdurdodau lleol wrthbrofi unrhyw hawliad a wneir gan ddeiliad y tŷ ei fod yn defnyddio lle tân esempt. Dywedodd y bydd y gwelliant hwn yn sicrhau cysondeb â'r dull a ddefnyddir yn y Bil mewn perthynas â thanwydd anawdurdodedig.

Mae gwelliant 14 gan y Llywodraeth, ynghyd â gwelliannau canlyniadol 16 a 17, yn dileu'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi cyn 1964 pan grëir ardal rheoli mwg newydd. Fel y mae ar hyn o bryd, gall perchnogion tai hawlio o leiaf 70% o'r costau addasu yn ôl gan eu hawdurdod lleol unwaith y bydd gorchymyn rheoli mwg wedi'i wneud. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y gallai hyn arwain at faich ariannol a gweinyddol sylweddol ar awdurdodau lleol, a datgymhellion i greu ardaloedd rheoli mwg. Dywedodd hefyd bod costau addasu wedi'u cadw mewn sefyllfaoedd penodol.

Amlinellodd y Dirprwy Weinidog fod y ddau welliant gan y Llywodraeth o ganlyniad i **argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor**. Galwodd argymhelliad 25 ar Weinidogion Cymru i ystyried a ellid a sut gellid ehangu'r ddarpariaeth rheoli mwg ledled Cymru heb effeithio'n andwyol ar aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd solet i goginio a gwresogi.

Byddai gwelliant aflwyddiannus 77, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, wedi ychwanegu adran newydd at y Bil, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru i ddatgan bod Cymru gyfan neu ran o Gymru yn ardal rheoli mwg. Byddai hyn wedi digwydd ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at ddewis Llywodraeth Cymru i adael i awdurdodau lleol benderfynu ar y ffordd orau o weithredu, o ystyried eu gwybodaeth am amgylchiadau lleol.

Byddai gwelliant 78, a gyflwynwyd hefyd gan Delyth Jewell AS, wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch ardaloedd rheoli mwg. Byddai'r canllawiau hyn wedi nodi'r amgylchiadau y dylai awdurdod lleol ddatgan odanynt fod ei ardal gyfan neu ran ohoni yn ardal rheoli mwg.

Cyflwynodd Janet Finch-Saunders AS dri gwelliant yn y grŵp hwn. Byddai gwelliant

48 wedi'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu rhestr o leoedd tân esempt drwy reoliadau. Galwodd gwelliant 59 ar awdurdodau lleol i gyhoeddi hysbysiad ar eu gwefannau pan fydd ardaloedd rheoli mwg yn cael eu rhoi ar waith. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn hapus i gefnogi gwelliant i roi hyn ar wyneb y Bil, ond nad yw wedi'i fewnosod yn y lleoliad priodol yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Roedd gwelliant 60 yn welliant technegol.

### Llosgi domestig

Yn ystod trafodion Cyfnod 1, bu'r Pwyllgor yn trafod yr angen am fwy o weithredu ar losgi domestig – mater yn ymwneud â'r Bil, ond nad yw'n cael ei drafod ynddo. **Yn ei adroddiad, argymhellodd** y Pwyllgor:

- dylai'r Gweinidog egluro pa fesurau a nodir yn yr ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig y gellid eu dwyn ymlaen gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol a pha rai y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach arnynt (argymhelliad 26); a
- chyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgynghoriad ar lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig, gan gynnwys y camau nesaf. Dylai'r ymateb gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n addas o uchelgeisiol (argymhelliad 27).

Ar 25 Hydref, gwnaeth y Dirprwy Weinidog **ysgrifennu at y Pwyllgor** i roi diweddariad. Amlinellodd fod crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi, a'i fod yn disgwyl i reoliadau (a wnaed o dan adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) ddod i rym yn hydref 2025. Amlinellodd ei bod yn debygol y bydd cyfnod pontio yn gysylltiedig ag unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau ar danwydd solet i ganiatáu i gyflenwyr ddisbyddu stociau presennol. Cyfeiriodd at **Strategaeth Gwres i Gymru** a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i drosglwyddo i wres carbon isel.

## Grŵp 10: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys saith gwelliant, ac ni dderbyniwyd unrhyw un ohonynt.

Byddai gwelliannau 49, 61 a 62 a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS wedi dileu'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o'r Bil.

Byddai gwelliant 79, a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS, wedi gosod dyletswydd

ar Weinidogion Cymru i ymgynghori wrth wneud cynllun codi tâl. Yn ystod Cyfnod 1, **dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor** fod Llywodraeth Cymru eisoes o dan ddyletswydd gyffredinol i ymgynghori wrth wneud is-ddeddfwriaeth ac felly nad oedd angen cynnwys darpariaeth yn y Bil.

Roedd gweddill y gwelliannau yn y grŵp hwn, a gyflwynwyd gan yr un Aelod, yn ymwneud ag enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Yn ei **adroddiad Cyfnod 1**, argymhellodd y Pwyllgor mai dim ond at ddiben “hwyluso’r broses o gyflawni polisïau sy’n ymwneud ag ansawdd aer yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, gan gynnwys teithio llesol” y dylai enillion o gynlluniau fod ar gael. Byddai gwelliant 82 wedi mewnosod y gofyniad hwn yn y Bil, nad yw’n cynnwys unrhyw ragdybiaeth ar ddefnyddio enillion net.

**Dywedodd y Dirprwy Weinidog** fod yr egwyddor o ragdybiaeth [“hypothecation”] yn ddeniadol iawn iddo ond y gall fod yn broblemus i lu effeithiau canlyniadol eraill. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ddarpariaeth y Bil sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu effaith defnyddio enillion net ar ansawdd aer a **dywedodd** ei fod yn barod i ystyried yng Nghyfnod 3 a allwn ehangu’r asesiad y darperir ar ei gyfer o fewn y Bil i gynnwys teithio llesol.

## Grŵp 11: Swyddfa Diogelu Ansawdd Aer

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS.

Galwodd gwelliant 52, nad oedd wedi llwyddo, am greu corff corfforedig newydd, y Swyddfa Diogelu Ansawdd Aer. Galwodd y gwelliant ar Weinidogion Cymru i osod rheoliadau drafft sy’n nodi darpariaeth bellach am y corff o fewn 12 mis ar ôl i’r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Tynnodd yr Aelod sylw at absenoldeb corff llywodraethu amgylcheddol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Bil sy’n ymwneud â llywodraethu amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth wedi’i drefnu i’w gyflwyno yn nhymor y Senedd hon. Dywedodd y byddai’n croesawu barn y Pwyllgor am sut yr hoffai i’r pwnc diogelu ansawdd aer gael ei ystyried fel rhan o’r corff llywodraethu amgylcheddol newydd.

## Grŵp 12: Seinweddau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwe gwelliant. Derbyniwyd tri ohonynt - un gwelliant gan y Llywodraeth (gwelliant 10) a gwelliannau 55 a 56 a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS.

Mae gwelliant 10 gan y Llywodraeth yn ychwanegu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at y rhestr o gyrff y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â hwy wrth lunio'r strategaeth seinwedd genedlaethol.

Mae gwelliant 55 yn welliant technegol, ac mae gwelliant 56 yn newid y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth seinweddau genedlaethol gynnwys polisïau ar gyfer lleihau lefelau llygredd sŵn i'w reoli'n effeithiol. Wrth symud y gwelliant, dadleuodd Janet Finch-Saunders AS y gallai'r geiriad gwreiddiol atal unrhyw waith datblygu yn anfwriadol. Gwnaeth y Pwyllgor **glywed tystiolaeth i'r perwyl hwn** yn ystod Cyfnod 1.

Byddai'r gwelliannau na chafodd eu derbyn wedi mewnosod diffiniad o seinweddau yn y Bil ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth seinweddau genedlaethol o fewn dwy flynedd ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor nad y diffiniad a ddefnyddiwyd oedd yr un rhyngwladol safonol ac y byddai'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi cyn y Cydsyniad Brenhinol sy'n golygu y byddai angen adolygiad bron ar unwaith pe cytunid ar y gwelliant perthnasol.

### Grŵp 13: Rheoliadau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant gan y Llywodraeth (gwelliant 35) a gafodd ei dderbyn.

Cyflwynwyd y gwelliant mewn ymateb i **argymhelliad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y gallai cynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn niffiniad y Bil o ddeddfwriaeth sylfaenol achosi dryswch. Mae'r gwelliant yn dileu'r cyfeiriad at ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn unol â'r argymhelliad.

## 3. Y camau nesaf

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2 ar 11 Hydref, dechreuodd y Bil ar Gyfnod 3 o'r broses ddeddfwriaethol ar 12 Hydref 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Dirprwy Weinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar **dudalen y Bil ar wefan y Pwyllgor**.

Cynhelir trafodion Cyfnod 3 ar 21 Tachwedd.